RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn rhithiol, dydd Llun, 28 Medi, 2020

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00 y.p. ar ddydd Iau, 1 Hydref, 2020. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00 y.p. ar ddydd Iau, 8 Hydref, 2020. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Gwener, 9 Hydref, 2020.

Yn bresennol: Y Cynghorwyr R Dew, Llinos Medi Huws (Cadeirydd), R Meirion Jones, R G Parry OBE FRAgs, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr John Griffith, Glyn Haynes, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Aled Morris Jones

Ymddiheuriadau: Dim

(10:00y.b. tan 12:15y.p.)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**3 Cofnodion** Amherthnasol
PENDERFYNIAD	**Penderfynwyd cadarnhau fel rhai cywir, cofnodion cyfarfod arbennig y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 17 Awst 2020.**
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	**Amherthnasol**
A OES MODD EI ALW I MEWN?	**Amherthnasol**

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**4 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith** Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
PENDERFYNIAD	**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi ei diweddaru am y cyfnod Hydref 2020 i Mai 2021 fel y'i cyflwynwyd.**
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	**Cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaen gynllunio.**
A OES MODD EI ALW I MEWN?	**Oes**

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**5 Monitro'r Gyllideb Refeniw – Chwarter 1, 2020/21** Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	**Penderfynwyd –** • **Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn Atodiadau A a B yr adroddiad yng nghyswllt perfformiad Ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro disgwyliedig ar gyfer 2020/21 gan nodi hefyd fod y sefyllfa yma'n ddibynnol ar gymorth parhaus Llywodraeth Cymru i gyllido'r golled ariannol a'r costau ychwanegol sy'n wynebu'r Cyngor yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol o ganlyniad i Coronafeirws.** • **Nodi'r crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn ar gyfer 2020/21 fel y manylir arnynt yn Atodiad C yr adroddiad;** • **Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r rhaglenni buddsoddi i arbed yn Atodiad CH yr adroddiad;** • **Nodi'r sefyllfa o ran arbedion effeithiolrwydd 2020/21 yn Atodiad D yr adroddiad;** • **Nodi'r modd y caiff costau staff asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro yn 2020/21 yn Atodiadau DD, E ac F yr adroddiad;** • **Bod llythyr ar y cyd yn cael ei anfon at Lywodraeth Cymru gan y Deilydd Portffolio Cyllid a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 i amlygu pryder parhaus ynghylch nifer cynyddol yr ail gartrefi sy'n cael eu hail-ddynodi'n fusnesau ac effaith hynny ar incwm y Cyngor, yn arbennig dan yr amgylchiadau heriol presennol, ac annog Llywodraeth Cymru i ystyried diwygio'r gyfraith i atal hyn rhag digwydd.**
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	**Monitro perfformiad y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2020/21.**
A OES MODD EI ALW I MEWN?	**Oes**

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**6 Monitro'r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 1, 2020/21** Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	**Penderfynwyd –** • **Nodi cynnydd gwariant a derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2020/21 yn Chwarter 1.** • **Cymeradwyo £49,000 o gyllid cyfatebol ychwanegol ar gyfer cynllun Lliniaru Llifogydd Pentraeth, yn unol â pharagraff 3.1.1 yr adroddiad. Mae'r gost ychwanegol o ganlyniad uniongyrchol i Covid-19 sydd wedi cynyddu costau'r contract i gwblhau'r cynllun.** • **Cymeradwyo £39,000 o gyllid cyfatebol ychwanegol ar gyfer cynllun Lliniaru Llifogydd Biwmares, yn unol â pharagraff 3.1.1 yr adroddiad. Mae'r gost ychwanegol o ganlyniad uniongyrchol i Covid-19 sydd wedi cynyddu costau'r contract i gwblhau'r cynllun.**
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	**Monitro perfformiad y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2020/21**
A OES MODD EI ALW I MEWN?	**Oes**

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**7 Monitro Cyllideb y CRT - Chwarter 1, 2020/21** Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	**Penderfynwyd nodi'r canlynol –** • **Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) am Chwarter 1, 2020/21.** • **Yr alldro rhagdybiedig ar gyfer 2020/21.**
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	**Monitro perfformiad Cyllideb y CRT ar gyfer 2020/21**

A OES MODD EI ALW I MEWN?	**Oes**

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**8 Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2021/22 – 2023/24** Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	**Penderfynwyd nodi cynnwys Cynllun Ariannol y Tymor Canolig 2020/21 - 2023/24 a chymeradwyo'r rhagdybiaethau a wneir yn yr adroddiad.**
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	**Darparu datganiad cyn pennu'r gyllideb yn unol â gofynion y cyfansoddiad.**
A OES MODD EI ALW I MEWN?	**Oes**

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**9 Adolygiad Rheoli Trysorlys Blynyddol 2019/20** Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	**Penderfynwyd –** • **Nodi y bydd y ffigyrau alldro yn yr adroddiad hwn yn parhau'n rhai dros dro hyd nes y bydd yr archwiliad o ddatganiad Cyfrifon 2019/20 wedi'i gwblhau a'i lofnodi; adroddir fel sy'n briodol ar unrhyw addasiadau sylweddol dilynol i'r ffigyrau a gynhwysir yn yr adroddiad;** • **Nodi dangosyddion Pwyllog a Thrysorlys dros dro 2019/20 yn yr adroddiad;** • **Trosglwyddo Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2019/20 i gyfarfod nesaf y Cyngor Llawn heb unrhyw sylwadau ychwanegol.**
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	**Cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol a gyda Chynllun Dirprwyaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2019/20**

A OES MODD EI ALW I MEWN?	**Amherthnsol. Bydd yr Adroddiad Blynyddol ar Reoli'r Trysorlys yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn a'i gymeradwyo ganddo.**

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**10 Diweddariad o'r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol** Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro
PENDERFYNIAD	**Penderfynwyd cadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith yn fodlon â chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma yn y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.**
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	**Monitro cynnydd y gwelliannau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol**
A OES MODD EI ALW I MEWN?	**Oes**

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**11 Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019/20** Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro
PENDERFYNIAD	**Penderfynwyd derbyn Adroddiad Blynyddol drafft y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2019/20 ac argymell yr adroddiad i'r Cyngor Llawn.**
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	**Derbyn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar gyfer 2019/20 yn unol â'r gofynion statudol**
A OES MODD EI ALW I MEWN?	**Amherthnasol. Bydd Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn a'i gymeradwyo ganddo**

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**12 Tir ar Stad Ddiwydiannol Mona - Cais gan Gymdeithas Amaethyddol Ynys Môn i ddiwygio amodau'r brydles** Adroddiad gan y Pennaeth Priffyrdd,

	Gwastraff ac Eiddo
PENDERFYNIAD	**Penderfynwyd gwrthod y cais i ddiwygio'r cytundeb prydles cyfredol gyda Chymdeithas Amaethyddol Ynys Môn am y rhesymau a ddisgrifir yn yr adroddiad.**
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	**Er mwyn gwneud penderfyniad ar y cais i ddiwygio amodau'r brydles**
A OES MODD EI ALW I MEWN?	**Oes**